# LC1417

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Diwygio) (Cymru) 2006

Mae rheoliad 3 o Reoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ("Rheoliadau 1990") yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â cheisiadau i awdurdodau cynllunio lleol am gydsyniad adeilad rhestredig neu gydsyniad ardal gadwraeth. Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau yma yn mewnosod rheoliad 3B yn Rheoliadau 1990. Mae'r rheoliad 3B newydd yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r gofyniad bod rhaid cael datganiadau mynediad i gyd-fynd â cheisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig. Mae'r ddarpariaeth newydd yn codi o ganlyniad i adran 42 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a fewnosododd y gofyniad ynglyn â "datganiadau mynediad" yn adran 10 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ("Deddf 1990").

### Rheol Sefydlog 11.7

Does dim pwyntiau wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

### Sylwadau

Dim ond er mwyn gwneud deddfwriaeth y mae'r diwygiad i adran 62 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n arwain at y diwygiad yma wedi'i gychwyn. Fe fydd angen ei gychwyn at y dibenion eraill cyn 30 Mehefin 2007, pan ddaw'r Gorchymyn yma i rym.

**David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**5 Rhagfyr 2006**